monmouthshire
sir fynwy

**CABINET**
**DECISION RECORDING LOG**

**DECISION DETERMINED ON: Dydd Mercher, 19 Chwefror 2020**

**DECSION WILL COME INTO EFFECT ON: Dydd Mercher 26ain o Chwefror 2020**

*Decisions made by full cabinet and individual cabinet members are subject to "Call-in" by the appropriate Select Committee. Should a decision be subject to call-in it will not take effect as stated above and will be presented again at a later date.*

**CABINET MEMBERS PRESENT:**

County Councillors R.J.W. Greenland, R.John, P. Jones, S. Jones, P. Jordan, P. Murphy, D. Batrouni, J.Watkins, F. Taylor and J.Pratt

**OTHER ELECTED MEMBERS PRESENT:**

County Councillors

**OFFICERS PRESENT**

Matt Phillips, Peter Davies, Will Mclean, Nicola Perry, Marie Bartlett, Matthew Lewis (Cefn Gwlad), Ruth Rourke, Nikki Wellington and Matthew Gatehouse

| Item Number | Title | Purpose, Consultation & Author | Declaration of Interests | Decision |
|---|---|---|---|---|
| **3a** | YSTYRIED CYNIGION REFENIW A CHYLLIDEB CYFALAF TERFYNOL | As set out in the report | | RESOLVED:<br>PENDERFYNWYD:<br>Bod y Cabinet yn ystyried yr ymatebion i'r ymgynghoriad ac yn argymell i'r Cyngor<br>• Y gyllideb refeniw ar gyfer 2020/21 a geir yn **Atodiad I**<br>• Y rhaglen gyfalaf o 2020/21 i 2023/24 a geir yn **Atodiad J1**<br><br>Bod y Cabinet yn cydnabod bod y cynigion terfynol ar gyfer y gyllideb sy'n cael eu cynnig yn ceisio cefnogi blaenoriaethau'r cyngor ac yn benodol yn ceisio cydnabod yn llawn, yr holl bwysau o ran gwariant sydd ynghlwm â thâl a phensiynau o fewn ein system ysgolion a'r pwysau cynyddol ar gyllidebau gwasanaethau gofal cymdeithasol plant, gofal cymdeithasol oedolion a'n plant sydd ag anghenion dysgu ychwanegol.<br><br>Y bydd cynnydd o 4.95% yn y band Treth Cyngor sy'n gyfystyr â Band "D" ar gyfer y Sir yn parhau i gael ei ddefnyddio fel y rhagdybiaeth cynllunio ym model y gyllideb ac i wneud cais am ddibenion y Sir yn 2020/21.<br><br>Bod y Cabinet yn cymeradwyo'r cynigion diwygiedig ar arbedion a phwysau, a ddiweddarwyd yn dilyn ymgynghoriad cyhoeddus, craffu a gwybodaeth mwy diweddar a ddaeth i law yn dilyn rhyddhau'r cynigion drafft ar gyfer ymgynghoriad ar yr 20fed o Ragfyr 2019.<br><br>Bod y Cabinet yn cydnabod y risgiau o ran absenoldeb cyllid gwaelodol yn y Setliad Llywodraeth Leol, a chamau ychwanegol y mae angen eu cymryd er mwyn rheoli'r diffyg sy'n weddill yn y gyllideb pe byddai hyn yn digwydd. |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | | | | Bod y Cabinet yn nodi'r symudiadau a ddisgwylir o ran cronfeydd wrth gefn sydd wedi eu clustnodi yn ystod 2020/21 sy'n golygu rhagolwg o ran balans wrth gefn wedi ei glustnodi o £5.29 miliwn ar ddiwedd 2020/21.<br><br>Bod y Cabinet yn cymeradwyo newidiadau i'r cynigion ar y gyllideb a'r rhaglen gyfalaf ddrafft ar gyfer 2020/21 ac fel yr amlinellir ym mharagraff 3.29.<br><br>Bod y Cabinet yn argymell bod y Cyngor yn cael gwared ag asedau sydd wedi eu nodi fel gwerth gorau yn y papur cefndir wedi ei eithrio.<br><br>Bod y Cabinet yn ystyried adroddiad y Swyddog Cyllid Cyfrifol ar gadernid y broses gyllido a digonolrwydd y cronfeydd wrth gefn a gyhoeddwyd o dan ddarpariaeth y Ddeddf Llywodraeth Leol 2003<br><br>Bod y Cabinet yn mabwysiadu adroddiad y Swyddog Cyllid Cyfrifol ar Ddangosyddion Darbodus.<br><br>Bod y Cabinet yn cymeradwyo'r canlynol:<br>• Bod gwaith pellach yn cael ei wneud i ddatblygu Cynllun Ariannol Tymor Canolig (CATC) cytbwys dros y cyfnod tair blynedd o 2021/22 i 2023/24.<br>Adolygiad rheolaidd o'r CATC er mwyn gwneud yn siŵr ei fod yn parhau'n ddiweddar, a bod yr adolygiad yn cynnwys asesiad o bwysau a risgiau yn seiliedig ar dystiolaeth, rhagdybiaethau modelu dan yr wyneb a goblygiadau fforddiadwyedd parhaus y Cynllun Corfforaethol. |
| **Additional Information:** | | | | |
| **3b** | CYNLLUN GWELLA MYNEDIAD I GEFN GWLAD | As set out in the report | | RESOLVED:<br>PENDERFYNWYD:<br>Bod y Cabinet yn cymeradwyo'r Cynllun Gwella Mynediad i Gefn Gwlad (Cynllun Gwella Hawliau Tramwy) a'r Polisi, Protocol a Chanllaw Rheoli Gweithredol Mynediad i Gefn Gwlad. |
| **Additional Information:** | | | | |
| **3c** | CYNLLUN CORFFORAETHOL 2017-22: ADFYWIAD CANOL TYMOR | As set out in the report | | RESOLVED:<br>PENDERFYNWYD:<br>Bod y Cabinet yn cymeradwyo'r Cynllun Corfforaethol cyn iddo gael ei gymeradwyo gan y Cyngor.<br><br>Bod y Cabinet yn cymeradwyo mabwysiadu'r amcanion sy'n cael eu cynnwys yn y cynllun fel Amcanion Llesiant ac Amcanion Gwella y Cyngor yn unol â gofynion y Ddeddf Llesiant a Chenedlaethau'r Dyfodol a'r Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009 |
| **Additional Information:** | | | | |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| **3d** | ADDYSG AWYR AGORED - DIWEDDARIAD YNGL?N Â'R GWASANAETH | As set out in the report | | RESOLVED:<br>PENDERFYNWYD:<br>Bod y Cabinet yn nodi'r sefyllfa gorwariant bresennol o 95k ar gyfer 2019/20 a'r posibilrwydd y bydd gan y gwasanaeth orwariant tebyg yn 2020/21. Nid yw hyn wedi ei gynnwys yn y rhestr o bwysau ar gyfer 2020/21 yn y CATC.<br><br>Bod y Cabinet yn symud at fodel cyflawni mwy cynaliadwy a allai, yn y pen draw, gynnwys ad-drefnu safleoedd. Os, ymhen amser, y bydd swyddogion yn argymell ad-drefnu safleoedd bydd adroddiad pellach yn cael ei gyflwyno i'r Cabinet. |
| **Additional Information:** | | | | |
| **3e** | NEWIDIADAU ARFAETHEDIG I FFORMIWLA ARIANNU YSGOLION | As set out in the report | | RESOLVED:<br>PENDERFYNWYD:<br>Bod y Cabinet yn cymeradwyo'r newidiadau arfaethedig i fformiwla ariannu ysgolion y manylir arno yn rhan 3 y ddogfen ymgynghori yn atodiad 1. |
| **Additional Information:** | | | | |
| **3f** | STRATEGAETHAU BUDDSODDI A CHRONFEYDD AM ADDYSG A CHRONFA'R DEGWM 2020/21 | As set out in the report | | RESOLVED:<br>PENDERFYNWYD:<br>Bod y Strategaeth Buddsoddi a Chronfeydd 2020/21 arfaethedig ar gyfer Cronfa Ymddiriedolaeth Gwaddol Ysgol Fferm Sir Fynwy yn cael ei chymeradwyo.<br><br>Bod y Strategaeth Buddsoddi a Chronfeydd 2020/21 arfaethedig ar gyfer Cronfa Eglwys Cymru'n cael ei chymeradwyo.<br><br>Dirprwyo cyfrifoldeb dros weithredu a gweinyddu penderfyniadau rheolaeth trysorlys i'r Pennaeth Cyllid (swyddog S151) a fydd yn gweithredu yn unol â'r Strategaeth Buddsoddi a Chronfeydd (atodiad 2).<br><br>Cymeradwyo'r dyraniad o £210,000 o grant 2020/21 i fuddiolwyr Awdurdod Lleol i Gronfa Deddf Eglwys Cymru Sir Fynwy, i'w rannu yn unol â chyfrannau poblogaeth yn ôl Cyfrifiad 2010.<br><br>Bod Bwrdd Ymddiriedolaeth Ysgol Fferm Sir Fynwy'n penderfynu ar ddyraniad grant 2020-21 yn ei gyfarfod ym mis Ionawr 2020 yn seiliedig ar enillion ar fuddsoddiad y blynyddoedd blaenorol ar ddiwedd Mawrth 2019, ac y bydd unrhyw danwariant o ddyraniad grant 2019-20yn cael ei gario ymlaen er mwyn osgoi erydiad y gronfa gyfan.<br><br>Cymeradwyo'r Egwyddorion Cronfa, Ystyriaethau Polisi a Meini Prawf Dyrannu Grant Eglwys Cymru ar gyfer 2020-21 (Atodiad 6) a ystyriwyd a ac a gymeradwywyd ym Mhwyllgor Cronfa Eglwys Cymru ar y 16ain o Ionawr 2020. |
| **Additional Information:** | | | | |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| **3g** | GR?P GWEITHIO CRONFA'R DEGWM | As set out in the report | | RESOLVED:<br>PENDERFYNWYD:<br>Bod grantiau’n cael eu rhoi yn unol â’r cynllun ceisiadau. |
| **Additional Information:** | | | | |
| | | | | |
| | | | | |